Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Cydbwyllgor GwE** |
| **DYDDIAD** | 15 Chwefror 2023 |
| **TEITL** | **Cyllideb GwE 2022/23 – Adolygiad 3ydd Chwarter** |
| **PWRPAS** | • Diweddaru aelodau'r Cydbwyllgor ar yr adolygiad ariannol diweddaraf o gyllideb GwE am y flwyddyn gyllidol 2022/23.<br>• Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar yr amrywiannau ariannol sylweddol, gydag Atodiad 1 yn cynnwys y wybodaeth ariannol gyflawn. |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn yr adroddiad. |
| **AWDUR** | Rheolwr Gyfarwyddwr GwE a Phennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd. |

## 1. CASGLIAD

1.1 Ar sail gwariant ac incwm y trydydd chwarter ac amcangyfrifon yn seiliedig ar eglurhad rheolwyr, mae'r adolygiad yma yn rhagweld sefyllfa lled niwtral gyda tanwariant net o (£27,423) erbyn diwedd y flwyddyn ariannol 2022/23.

1.2 Mae'r rhan ddilynol o'r adroddiad yma'n egluro'r rhesymau tu ôl i'r prif amrywiadau a ragwelir.

## 2. AMRYWIADAU ARIANNOL

2.1 **Gweithwyr:**

**Chwarter 3: gorwariant £12,711** *Chwarter 2: tanwariant (£46,552)*

Adroddir ar sefyllfa o orwariant bychan yn y cyfnod yma. Gyda gwerth y gyllideb yn £3.3m net, mae hyn gyfystyr â sefyllfa lled-niwtral. Mae GwE wedi medru penodi nifer o staff yn y misoedd diwethaf i swyddi oedd wedi bod yn wag yn ogystal â phenodi ambell swyddog dros dro i weithio tra fod aelodau i ffwrdd ar absenoldebau mamolaeth.

2.2 **Adeilad:**

**Chwarter 3: gorwariant £23,787** *Chwarter 2: gorwariant £25,367*

Dim newid o sylwedd i'r hyn adroddwyd yn Chwarter 2. Mae GwE yn ddibynnol ar incwm gan ysgolion, awdurdodau a defnydd mewnol o gynlluniau sy'n cael eu hariannu drwy grantiau, am rent o ddefnydd adeiladau GwE. Mae'r digwyddiadau hyn wedi ail-gychwyn ym mis Medi, a felly rhagwelir bydd y ffrwd incwm yma yn gwella yn ystod y flwyddyn, ond bydd diffyg incwm ar gyfer y cyfnod Ebrill i Awst yn arwain at orwariant.

2.3 **Cludiant:**

**Chwarter 3: tanwariant (£54,046)** *Chwarter 2: tanwariant (£59,759)*

Dim newid o unrhyw sylwedd i'r hyn adroddwyd yn Chwarter 2. Ar ôl eu hatal yn ystod yr argyfwng Covid-19, mae ymweliadau ag ysgolion wedi ailgychwyn erbyn hyn. Er hynny, mae ffyrdd newydd o weithio yn gyffredinol wedi arwain at fwy o gyfarfodydd rhithiol, ac felly llai o deithio.

## 3. Y GRONFA GYFFREDINOL

3.1 Cyfanswm y gronfa ar gychwyn y flwyddyn ariannol 2022/23 oedd £437,503.

3.2 Amcangyfrifir bydd cyfanswm y gronfa yn £481,996 ar ddiwedd 2022/23, wrth gynnwys y tanwariant o (£27,423) a ragwelir uchod, yn ogystal â'r cyfraniad at y gronfa i adnewyddu offer Technoleg Gwybodaeth (£17,070).

**ATODIADAU**
Atodiad 1: Cyllideb GwE 2022/23 – Adolygiad 3ydd Chwarter.

## BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

### Y Swyddog Monitro:

Dim i’w ychwanegu o safbwynt priodoldeb

### Y Swyddog Cyllid Statudol:

Cyd-awdur yr adroddiad